MWLDAN + CASTELL ABERTEIFI CARDIGAN CASTLE YN CYFLWYNO PRESENTS

# YR HAF YN Y CASTELL

## SUMMER AT THE CASTLE

GWYBODAETH HANFODOL

## Ysgol Celfyddydau Perfformio Dynamix:

## Matilda JR.

Cynhelir y digwyddiad yng Nghastell Aberteifi

Hyrwyddiad ar y cyd gan Theatr Mwldan / Castell Aberteifi

Dydd Sadwrn 9fed a Dydd Sul 10fed Gorffennaf, 2022

5.00pm (drysau 4.00pm)

Diolch am brynu tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn. Rydym wedi cynnwys ychydig wybodaeth hanfodol i geisio sicrhau bod yr achlysur yn rhedeg yn ddidrafferth. Cymerwch yr amser i ddarllen trwy'r pwyntiau isod, ac os oes gennych unrhyw gwestiynau yna cysylltwch â Swyddfa Docynnau Theatr Mwldan ar 01239621200 neu e-bostiwch boxoffice@mwldan.co.uk a gwnawn ein gorau i geisio esbonio pethau i chi.

Theatr Mwldan yw'r unig werthwr tocynnau ar gyfer y digwyddiadau hyn. Gallwch archebu tocynnau ar-lein yn www.mwldan.co.uk neu drwy'r swyddfa docynnau yn wyneb yn wyneb neu drwy ffonio 01239 621 200.

Sgroliwch i lawr i weld map o safle'r Castell.

## CYFEIRIAD

Castell Aberteifi, Stryd Werdd, Aberteifi, SA321JA

## WHAT3WORDS

///surnames.tribe.thrones

## Y DIGWYDDIAD

Digwyddiad awyr agored yw hwn. Awgrymwn fod cwsmeriaid yn gwisgo esgidiau addas ac yn dod â siaced / dilledyn cynnes gan ei bod yn gallu oeri gyda'r hwyr a bydd y perfformiad yn cael ei gynnal boed law neu hindda.

## TREFN DIGWYDDIADAU

- Bydd Swyddfa Docynnau Dros Dro ar agor o 2pm ym mhrif fynedfa'r castell lle gellir cyfnewid eich tocynnau am fandiau arddwrn.
- Bydd Drysau/Gatiau yn agor am 4.00 pm a bydd lluniaeth ar gael ar y safle o'r amser hwn.
- Bydd y perfformiad yn cychwyn am 5.00yh.
- Bydd egwyl o tua 20 munud rhwng y perfformio.

## PRIS

Oedolion £10, £8 i blant dan 14 oed. Mae'n bosibl bydd tocynnau ar gael wrth y drws, ond mae hyn yn hollol ddibynnol ar argaeledd. Arian parod wrth y drws yn unig (mae peiriannau arian ar gael gerllaw ar Stryd Fawr Aberteifi). Argymhellwn archebu tocynnau i osgoi cael eich siomi.

PARCIO

- Noder, NID OES UNRHYW BARCIO ar safle Castell Aberteifi, a chynghorwn ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r meysydd parcio talu ac arddangos cyhoeddus (yn ddi-dâl ar ôl 6pm) sydd o gwmpas y dref.

GWYBODAETH I'N CWSMERIAID ANABL

- Mae yna fynediad gwastad i'r safle i ddefnyddwyr cadair olwyn, a bydd aelodau penodedig o staff ar gael i'ch cynorthwyo a'ch cyfeirio at eich seddau cadw. Dewch i'r brif fynedfa a nodir ar y map isod lle bydd aelod o'n tîm ar ddyletswydd yn cwrdd â chi.
- NODER: Os ydych eisoes wedi archebu tocynnau <u>ond nad ydych eto wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion arbennig o ran eistedd</u>, byddwch cystal â gwneud hynny yn syth trwy gysylltu â'n swyddfa docynnau ar 01239 621 200 neu drwy e-bostio boxoffice@mwldan.co.uk. Ni allwn sicrhau y bydd digon o le ar y noson ar gyfer y rheiny nad ydynt wedi ein cynghori o flaen llaw am unrhyw anghenion arbennig o ran eistedd.

SEDDAU

- Ni ddarperir seddau yn y digwyddiad hwn. Mae croeso i gwsmeriaid ddod â chadeiriau gwersylla plygadwy cefn isel neu rygiau gyda nhw i'r digwyddiad hwn.

TOCYNNAU A MYNEDIAD I'R SAFLE

Bydd mynediad i ddeiliaid tocynnau drwy brif fynedfa'r castell fel y nodir ar y map.

- Bydd Swyddfa Docynnau Dros Dro ar agor o 2.00pm wrth brif fynedfa'r castell lle gellir cyfnewid eich tocynnau am fandiau arddwrn ar y diwrnod (ni allwch gasglu eich bandiau arddwrn o'r Mwldan o flaen llaw). Casglwch eich bandiau arddwrn yn gynnar i'n helpu ni i gadw'r ciw mor fyr â phosibl.

- I gasglu eich band arddwrn yn y Castell gallwch naill ai:
    - Ddangos eich cod archebu QR ar eich ffôn symudol

    - Cyfnewid eich tocyn papur o'r Mwldan
    - Dangos eich allbrint tocynnau os ydych wedi archebu ar-lein
- DIM TOCYN, DIM MYNEDIAD. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ddull adnabod i wirio mai chi yw'r sawl sydd wedi archebu'r tocynnau, neu os oes angen i chi ddangos cymhwyster ar gyfer pris consesiynol (lle bo'n berthnasol).
- Ni fyddwn yn gallu ailargraffu tocynnau os cânt eu colli. Cysylltwch â swyddfa docynnau Theatr Mwldan os na fedrwch argraffu eich tocyn eich hun a gallwn ei argraffu ar eich rhan.
- Ni roddir ad-daliadau ar gyfer tocynnau i'r sioeau hyn.

BWYD A DIOD

- Yn y digwyddiad hwn, ni chaniateir bwyd a diod ar y safle sydd wedi ei brynu y tu allan i'r Castell. Caiff unrhyw fwyd neu ddiod sy'n cael ei gludo i'r safle ei gymryd ymaith ac ni chaiff ei ddychwelyd.
- Mae croeso i chi ddod â photel ddŵr **wag** gyda chi i'r safle, y gallwch ei hail-lenwi ym Mar y Pafiliwn.
- Bydd bar a bwyd ar gael ar y safle. Bydd y bwyd a gynigir yn cynnwys opsiynau llysieuol a fegan.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r fwydlen, cysylltwch â Chastell Aberteifi 01239 615131 / info@cardigancastle.com

CŴN AR Y SAFLE

- Ni chaniateir cŵn ar y safle, ac eithrio cŵn tywys.

GWIRIADAU BAG

- Er diogelwch ein cwsmeriaid, bydd bagiau'n cael eu gwirio wrth y drws.

YSTAFELL GOTIAU

- Nid oes ystafell gotiau ar gael ar y safle.
- Peidiwch â dod ag unrhyw fagiau mawr neu sachau cefn i'r safle.

SMYGU

- Ni chaniateir unrhyw smygu neu fêpio ar safle'r castell o gwbl.

Edrychwn ymlaen at eich gweld.
Jasmine Revell
Rheolwr Gweithrediadau

MAP O GASTELL ABERTEIFI

